# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 25 Tachwedd 2014 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr: Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau; ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Martyn Holland, Rhys Hughes, Jason McLellan ac Arwel Roberts

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Cyllid ac Asedau (PM); Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (SP) a Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG); Prif Gyfrifydd (RW); Rheolwr y Tîm Cefnogi Pobl (KN), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad personol na rhagfarnol ei ddatgan.

### 3 MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2014.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2014 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

### 5 CYLLIDEB 2015/16 - 2016/17 (CAM 2)

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn argymell cyflwyno Cam 2 yr arbedion yn y gyllideb ger bron y Cyngor i'w cymeradwyo. Roedd yr

adroddiad yn amlinellu sefyllfa gyfredol y gyllideb ac yn manylu ar y cynigion diweddaraf i ganfod arbedion sy’n dod i gyfanswm o £3.6 miliwn yn 2015/16 ac £1.8 miliwn yn 2016/17.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at y gwaith caled y mae Aelodau Arweiniol a Phenaethiaid Gwasanaeth wedi ei wneud i ddynodi dewisiadau i'w hystyried ac i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o oblygiadau'r cynigion. Tra oedd yn cydnabod bod angen gwneud penderfyniadau anodd nododd ei fod yn fodlon bod y broses o bennu cyllideb wedi bod yn gadarn, yn agored ac yn dryloyw a diolchodd i’r holl aelodau am eu cyfranogiad. Atgoffwyd yr aelodau gan y Cynghorydd Thompson-Hill am y broses gynhwysfawr i ddynodi'r arbedion y mae eu hangen i gyflawni cyllideb gytbwys dros y ddwy flynedd nesaf. Cafwyd diweddariad ganddo hefyd ynglŷn â’r ymarfer a wnaed i ymgysylltu â'r cyhoedd a elwid yn 'Torri’r Brethyn’ a dywedodd y byddai adborth yn cael ei adrodd ger bron y Cyngor llawn ochr yn ochr ag argymhellion y gyllideb a'r asesiadau effaith llawn.

Amlinellodd Aelodau'r Cabinet y cynigion cyllidol sy'n ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol o fewn eu portffolios eu hunain y manylir arnynt yn Atodiad 1, gan egluro’r rhesymeg sydd wrth wraidd yr argymhellion hynny a'r goblygiadau dilynol sy’n deillio ohonynt. Tra oedd yr aelodau’n rhoi ystyriaeth i'r arbedion cyllidol manteisiodd rhai ohonynt ar y cyfle i holi cwestiynau a cheisio sicrwydd ynglŷn â chynigion penodol er mwyn bodloni eu hunain mai’r rhain oedd y dewisiadau gorau i'w hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn eu cymeradwyo.

Roedd prif agweddau’r drafodaeth yn canolbwyntio ar y meysydd gwasanaeth canlynol -

**Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion** - Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd y Cynghorydd Eryl Williams bod y diogelwch o 1% yn y gyllideb yn cael ei gynnal drwy fuddsoddi yn y Cynllun Corfforaethol. O ran y gostyngiad i adlewyrchu'r lleihad yn nifer y disgyblion eglurodd beth yw swyddogaeth y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn hynny o beth.

**Cefnogaeth Addysgol** - O ran cael gwared ar y grant gwisg ysgol dewisol ar gyfer Blynyddoedd 8-11 roedd eglurhad llawn wedi cael ei ddarparu yn ystod Sesiwn Briffio'r Cyngor ac nid oes disgwyl y bydd plant na allant fforddio gwisg ysgol yn gorfod gwneud heb wisg ysgol.

**Gwasanaethau Gwella Ysgolion** - Trafodwyd effaith dod â’r cytundeb gwasanaeth cerddoriaeth i ben a nodwyd na fyddai gwersi cerddoriaeth ar gyfer disgyblion unigol yn cael eu heffeithio. O adolygu’r maes hwn, gwelwyd nad oedd y ddarpariaeth cyllid cerddoriaeth yn cael ei defnyddio ym mhob ysgol. Roedd modd i ysgolion gymryd cyfrifoldeb am y gwasanaeth cerddoriaeth ac roedd rhai eisoes yn ymchwilio i’r posibilrwydd hwnnw.

**Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** - Gofynnwyd am sicrwydd na fyddai plant ag anableddau o dan anfantais o ganlyniad i gyflwyno cyfraniadau gan rieni am y gwasanaethau a ddarperir. Dywedwyd wrth y Cabinet na ddylai cyflwyno cyfradd wastad fechan gael nemor ddim effaith, o gofio fod gan rieni fynediad o hyd at ystod o fuddion eraill.

**Gwasanaethau Oedolion a Busnes -** Gofynnwyd am sicrwydd na fyddai cynigion i allanoli'r cartrefi gofal y mae'r cyngor yn eu rhedeg yn niweidiol i'w trigolion. Trafododd yr Aelodau gyfeiriadau diweddar yn y wasg at safonau gwael mewn cartrefi gofal preifat a thynnodd y Cynghorydd Bobby Feely sylw at fesurau sydd yn eu lle er mwyn monitro safonau a darparu trosolwg mwy cyffredinol o ansawdd a safon y gofal mewn cartrefi gofal preifat. Dywedodd hefyd mai dim ond tri o'r cartrefi gofal yn y sir sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor gan ddarparu sicrwydd pendant y byddai'r ddarpariaeth gywir ar gael i bob preswylydd yr effeithir arnynt gan y cynigion ac na fyddai unrhyw wasanaeth yn cau oni bai y canfyddid darpariaeth amgen i gwrdd ag anghenion yr unigolion. Hefyd trafododd yr Aelodau rinweddau cynlluniau tai gofal ychwanegol fel darpariaeth amgen a chafwyd diweddariad ynglŷn â'r cynnydd a wnaed gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o ran gofal a gofal cymdeithasol integredig.

**Priffyrdd a'r Amgylchedd (Cymhorthdal Cludiant Cyhoeddus)** - Cydnabu'r Cynghorydd David Smith bryderon ynglŷn ag effaith gostwng / cael gwared ar y cymhorthdal cludiant cyhoeddus, yn enwedig ar drigolion gwledig. Dywedodd y byddai canfyddiadau'r ymgynghoriad ynglŷn â chludiant cyhoeddus yn llywio'r broses resymoli ac y byddai'r wybodaeth honno ar gael i'w hystyried cyn cyfarfod llawn nesaf y Cyngor.

**Priffyrdd a'r Amgylchedd (Cynnal a Chadw Tiroedd) -** Trafododd y Cabinet effaith lleihau'r gyllideb cynnal a chadw tiroedd ar ymddangosiad gweledol, yn enwedig mewn ardaloedd arfordirol a oedd yn dibynnu'n fawr ar dwristiaeth. Cydnabuwyd bod arddangosfeydd blodau ac ati yn cael eu cefnogi'n sylweddol mewn rhai ardaloedd ond nid mewn ardaloedd eraill. Roedd y camau i liniaru'r cynnig yn cynnwys gofyn am nawdd ar gyfer cylchfannau ac arddangosfeydd penodol ac roedd yr aelodau'n gobeithio y gellid canfod ffynonellau cyllid allanol i gynnal safonau.

**Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd -** Trafododd yr Aelodau'r cynnig i atal neu leihau cyllid teledu cylch caeedig gan dynnu sylw at bwysigrwydd y gwasanaeth wrth atal troseddu a sicrhau erlyniadau. Pwysleisiwyd yr angen i wneud ymdrech fawr i archwilio opsiynau eraill i geisio sicrhau dyfodol y gwasanaeth. Cadarnhawyd bod arbedion wedi cael eu clustnodi ar gyfer 2016/17 a oedd yn gadael deuddeg mis i weithio gyda phartïon sydd â diddordeb ac i edrych ar opsiynau posibl i gyflawni'r Gwasanaeth Teledu Cylch Caeedig yn Y Rhyl, ym Mhrestatyn ac yn Rhuddlan. Fodd bynnag, pe na bai'r ymdrechion hynny'n llwyddiannus byddai'r gwasanaeth yn dod i ben. Nodwyd nad oedd darpariaethau teledu cylch caeedig mewn ardaloedd eraill yn cael eu hariannu gan y Cyngor Sir.

**Tai a Datblygu Cymunedol -** Amlygodd y Cynghorydd Eryl Williams bwysigrwydd y Cynlluniau Tref ac Ardal a gofynnodd am ailgyflwyno'r dyraniadau yn y gyllideb pe deuai cyllid allanol ar gael. Cadarnhaodd yr Arweinydd ei ymrwymiad i'r Cynlluniau a chydnabod yr angen i fod yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer cyllid o'r fferm wynt a chyllid Ewropeaidd ac ymateb i'r cyfleoedd hynny. Ychwanegodd hyd yn oed os yw'r cynnig i gael gwared ar y gyllideb refeniw yn cael ei gymeradwyo, roedd oddeutu £850k o danwariant o ddyraniadau blaenorol yn cael eu cadw ac ar gael ar gyfer prosiectau priodol ar gyfer gweddill tymor y Cyngor.

**Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden -** Amlygwyd pwysigrwydd diwylliant a mynegwyd pryderon dros roi'r gorau i gynnal arddangosfeydd celfyddydol mewn orielau. Y gobaith oedd y gellid canfod ffyrdd amgen i annog diwylliant a'r celfyddydau yn y sir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Amlygwyd pwysigrwydd y Scala a Chanolfan Grefft Rhuthun hefyd er gwaethaf y ffaith nad ydynt yn swyddogaethau statudol. Rhoddodd y Cynghorydd Huw Jones sicrwydd bod y Scala a Chanolfan Grefft Rhuthun wedi cael eu trin yn deg ac mai graddfa symudol a ddefnyddiwyd wrth ostwng eu cymhorthdal.

**Cyllid ac Asedau** - Mewn ymateb i gwestiynau cydnabu'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill fod y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau'n wasanaeth sy'n perfformio'n dda ond yng ngoleuni newidiadau i'w weithrediad a'r effaith bosibl ar lefelau staffio mae partneriaeth fasnachol wedi cael ei hargymell. Mae adroddiad cyfrinachol i'w ystyried yn ddiweddarach ar y rhaglen sy'n darparu manylion pellach ynglŷn â'r cynnig.

Amlygodd y Cynghorydd Jason McLellan, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ei bryderon ynglŷn â'r broses o bennu'r gyllideb, gan ddefnyddio'r adolygiad o'r Gwasanaeth Hawliau Lles fel enghraifft. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn gwneud gwaith pellach er mwyn profi a cheisio sicrwydd ynglŷn â'r broses o bennu'r gyllideb. Ymatebodd yr Arweinydd, yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau a'r Prif Weithredwr i'r pryderon a godwyd gan ddarparu sicrwydd ynghylch tryloywder a chadernid y broses o bennu'r gyllideb. Nodwyd swyddogaeth y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cymryd trosolwg o'r broses o bennu'r gyllideb.

Darparodd y Prif Weithredwr gyd-destun ynglŷn â graddfa'r toriadau yn y gyllideb sy'n wynebu llywodraeth leol a rhai o benawdau'r ymarfer a gynhaliwyd i ymgysylltu â'r cyhoedd. Tynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd y berthynas â chynghorau tref/cymuned a phartneriaid eraill er mwyn ceisio sicrhau darpariaeth amgen ar gyfer swyddogaethau na fydd y Cyngor bellach yn ymgymryd â hwynt. Gofynnodd y Cabinet i'r broses gynhwysfawr o bennu'r gyllideb ac i ymwneud pob aelod â'r broses honno gael eu hadlewyrchu yn y penderfyniad. Talodd yr aelodau deyrnged i waith caled y swyddogion wrth liniaru effeithiau'r toriadau ac i'r creadigrwydd a ddangoswyd yn moderneiddio ac yn addasu gwasanaethau mewn amgylchiadau anodd. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet, ar ôl ystyried y trafodaethau a fu mewn nifer o weithdai i aelodau ynglŷn â chyflawni arbedion o £17.1 miliwn yn y gyllideb, yn argymell bod yr arbedion a restrir yn Atodiad 1 yr adroddiad yn cael eu cyflwyno ger bron holl aelodau'r Cyngor i'w cymeradwyo.*

Ar y pwynt hwn (12.05pm) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

**6 CYNLLUN COMISIYNU LLEOL CEFNOGI POBL SIR DDINBYCH 2015-18**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl 2015-18 cyn y câi ei gyflwyno ger bron Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Fframwaith polisi a ffrwd ariannu yw Cefnogi Pobl er mwyn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl ddiamddiffyn er mwyn eu galluogi i fyw mor annibynnol ag y bo modd. Roedd y Cynllun yn manylu ar flaenoriaethau ac ar gamau gweithredu dros y tair blynedd nesaf, a chyfeiriwyd at y goblygiadau cyllidol sy'n codi o doriadau mewn cyllid, gyda gostyngiadau dangosol gan y darparwr ar gyfer 2015-16 wedi eu cynnwys mewn atodiad cyfrinachol i'r prif adroddiad. Mewn ymateb i gwestiynau dywedwyd wrth yr aelodau am y trefniadau llywodraethu sydd ar waith ac am y modd y caiff adnoddau ariannol eu rheoli, ynghyd â swyddogaeth Cefnogi Pobl wrth gefnogi Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) trwy ddarparu gwasanaethau lefel isel a gwasanaethau ataliol.

Yn y fan hon penderfynodd y Cabinet eithrio’r wasg a'r cyhoedd er mwyn trafod yr atodiad cyfrinachol ac ymatebodd swyddogion i gwestiynau ynglŷn â hynny ac wedi hynny ailddechreuwyd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo cyflwyno Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl 2015 - 18 ger bron Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Ionawr 2015.*

## 7 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant o £158 mil yn y gyllideb refeniw ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chyllidebau corfforaethol
- cytunwyd ar arbedion o £7.1 miliwn yn rhan o'r gyllideb ac ar hyn o bryd mae 90% wedi eu cyflawni ac mae 10% yn mynd rhagddynt
- amlygwyd y prif amrywiadau oddi wrth gyllidebau neu dargedau arbedion meysydd gwasanaeth unigol
- cafwyd diweddariad cyffredinol ynglŷn â’r Cyfrif Refeniw Tai; y Cynllun Tai Cyfalaf a’r Cynllun Cyfalaf (yn cynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol).

Adroddodd y Cynghorydd Eryl Williams am gyfarfod Blynyddol y Gweinidog Addysg gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr wythnos cynt pan drafodwyd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac amlygu’r angen i fynd i'r afael â lleoedd gweigion. Nododd yr aelodau fod nifer o gynghorau yn ei chael yn anodd ariannu’r prosiectau hynny a phwysleisiodd yr Arweinydd pa mor bwysig yw parhau â'r disgwyliadau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Roedd hefyd yn falch o nodi cynnydd cadarnhaol y prif brosiectau a oedd wedi eu nodi yn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau nifer o ddiwygiadau ers ei chyhoeddi.

***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***RESOLVED** that under Section 100A of the Local Government Act 1972, the Press and Public be excluded from the meeting for the following items of business on the grounds that it involved the likely disclosure of exempt information as defined in Paragraphs 14 and 15 of Part 4 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972.*

## 9 PARTNERIAETH FASNACHOL AR GYFER Y GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol ynglŷn â'r cynigion i ffurfio partneriaeth fasnachol gyda chwmni preifat i ddarparu Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau'r Cyngor.

Mewn trafodaeth fanwl, ystyriodd y Cabinet y dadansoddiad dewisiadau a ddarparwyd gogyfer â'r gwasanaeth a'r rhesymeg sydd wrth wraidd y cynigion i ymrwymo i bartneriaeth fasnachol gan gynnwys manteision hynny dros y dewisiadau amgen, yn enwedig o ran arbedion a'r cyfle ar gyfer twf. Roedd cynrychiolwyr o'r cwmni preifat yn bresennol a buont yn ymateb i gwestiynau'r aelodau ynglŷn â'r model arfaethedig a'r cynlluniau i'r dyfodol ped elai'r bartneriaeth rhagddi, gan ddarparu sicrwydd ynghylch eu hymrwymiad i Sir Ddinbych o ran staffio a lleoliad; eu darpariaeth Gymraeg a'u hymrwymiad i ddilyn polisïau a gweithdrefnau presennol. Cyfeiriwyd hefyd at effaith newidiadau deddfwriaethol a chamau gweithredu i liniaru'r rheini. Dywedwyd wrth yr Aelodau am yr adborth cadarnhaol a gafwyd wrth ymgynghori â staff ac am drafodaethau cadarnhaol gyda'r undebau.

Cydnabu'r Cabinet y manteision a'r cyfleoedd a ddaw o ffurfio partneriaeth fasnachol ond gofynnwyd, pe cymeradwyir y bartneriaeth, bod adolygiad yn cael ei gynnal ymhen tua deunaw mis.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet-*

*(a) yn argymell i'r Cyngor llawn bod y Cyngor yn ymrwymo mewn partneriaeth fasnachol gyda'r cwmni a enwyd yn yr adroddiad, ac*

*(b) yn amodol ar gael cymeradwyaeth y Cyngor bod adroddiad yn cael ei gyflwyno ger bron y broses graffu wedi deunaw mis o weithredu'r bartneriaeth er mwyn adolygu cynnydd y bartneriaeth gan roi sylw arbennig i elfen busnes newydd y cynnig ac i ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.50pm.

## 10 CYTUNDEB GWIRFODDOL I ADAEL Y SYSTEM CYMHORTHDAL CYFRIF REFENIW TAI (HRAS)

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol yn gofyn i'r Cabinet argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo’r cytundeb gwirfoddol ac yn cymeradwyo dirprwyo awdurdod i gwblhau manylion y cytundeb.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cerrig milltir allweddol ar gyfer gadael system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai ac yn rhoi trosolwg o'r cytundeb gwirfoddol sydd i’w lofnodi rhwng yr un ar ddeg awdurdod sy’n meddu ar stoc dai a Llywodraeth Cymru er mwyn eu galluogi i adael y system. Ymhelaethodd y Cynghorydd Hugh Irving ar y cydweithio a fu rhwng awdurdodau a thalodd deyrnged i waith caled y swyddogion cyllid a thai yn hynny o beth. Ymgyfarwyddodd yr Aelodau â’r cytundeb cydweithredol a chroesawu buddion y system arfaethedig newydd a'r manteision ariannol ar gyfer Sir Ddinbych. Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau ynglŷn â goblygiadau ariannol gadael y system, y buddsoddiad posibl mewn stoc tai fforddiadwy i’r dyfodol a goblygiadau'r uno posibl gyda Conwy. Ailadroddodd y Cynghorydd Eryl Williams ei farn y dylid cyhoeddi cynlluniau'r Cyngor i adeiladu tai fforddiadwy fel stori o newyddion da. Credai’r Cynghorydd Thompson-Hill y byddai'n gyfle da i roi cyhoeddusrwydd i’r cynlluniau pan roddir ystyriaeth i adael y system cymhorthdal tai yn y Cyngor llawn.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cabinet -*

*(a) yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo’r cytundeb gwirfoddol ac yn nodi'r cerrig milltir allweddol y gweithir tuag atynt er mwyn gadael y system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai.*

*(b) ar yr amod bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cytundeb gwirfoddol, yn dirprwyo awdurdod i'r Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau ac i'r Prif Gyfrifydd i gwblhau manylion y cytundeb mewn trafodaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r deg awdurdod arall yng Nghymru sy’n meddu ar stoc dai.*